



**LLAWLYFR
YSGOL PENDALAR
GWYBODAETH I'R RHIENI
2017-2018**

YSGOL PENDALAR

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR

Dr Helen Roberts

PENNAETH

Miss Bethan Morris-Jones

DIRPRWY BENNAETH

Mr Deiniol Harries

Cyfeiriad yr Ysgol:

Ysgol Pendalar
Ffordd Bethel
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1DU

Rhif Ffon:

(01286) 672141

E-Bost:

BethanMorrisJones@gwynedd.llyw.cymru

Gwefan:

www.ysgolpendalar.org

Twitter:

@YPendalar

CYFLWYNIAD

Pwrpas y llawlyfr yma yw rhoi cipolwg ar athroniaeth, ethos a gwaith yr ysgol hon. Lluniwyd ef yn bennaf ar gyfer y rhieni ond gall fod o fudd i eraill sydd â diddordeb ac angen gwybodaeth. Os hoffech wybod mwy gallwch gysylltu â'r Pennaeth.

Pwysleisir fod perthynas dda rhwng y rhieni a'r ysgol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y gwaith a lles y plant. Cewch gwahoddiad ffurfiol i ddod i'r ysgol i edrych ar waith eich plentyn unwaith y tymor ac i drafod eu rhaglenni gwaith a thargedau'r athro ar gyfer eich plentyn am y flwyddyn. Heblaw hyn, mae croeso i chi ddod i'r ysgol ar unrhyw adeg arall i drafod unrhyw beth perthnasol i'r plant, ond gofynnir i chwi drefnu'r amser ymlaen llaw.

CYNNWYS

- Rhestr Staff
- Rhestr Llywodraethwyr
- Disgrifiad o'r Ysgol
- Derbyn i'r Ysgol
- Amcanion yr Ysgol
- Dulliau Cyflawni'r Amcanion
- Ethos yr Ysgol
- Cwricwlwm yr Ysgol:
 - Amcanion
 - Athroniaeth a Chynnwys yr Adrannau
 - Gweithgareddau Allanol
 - Addysg Rhyw ac Iechyd
- Trefn Gwyno
- Addysg Grefyddol a Chydaddoli
- Gwasanaeth Nyrs yr Ysgol
- Gwaith Cartref
- Iaith yr Ysgol
- Absenoldebau
- Arian Cinio
- Codi Taliadau
- Gwasanaethau Eraill
- Gwyliau Ysgol (**y flwyddyn gyfredol**)
- Gwyliau Ysgol (**y flwyddyn nesaf**)

RHESTR STAFF

Pennaeth: Miss Bethan Morris-Jones
Dirprwy Bennaeth: Mr Deiniol Harries
Pennaeth Cynorthwyol (Uwchradd) Mrs Sian Catherine Watson
Pennaeth Cynorthwyol (Cynradd) Mrs Wendi Evans

Athrawon

Miss Awen Davies-Jones
Miss Ceri Griffith
Miss Heddu Gwynedd
Mr John Hughes
Mrs Bethan Hughes
Mrs Iola Jones
Miss Emma Owen
Mr Geraint Roberts (0.6)
Mr Gavin Saynor
Mrs Lois Shaw-Evans
Mrs Sian Angharad Williams

Uwch-Gymhorthyddion

Mrs Sharon Jones
Mrs Alwen Williams

Staff Ategol

Mrs Mandy Berry
Mrs Alison Binfield
Mrs Julie Bryan
Mr Joseph Corfield
Mr Hefin Daniel
Mrs Zoe Ann Day
Mrs Jennifer Evans
Miss Lynwen Griffith
Mr Daniel Hornby
Mrs Julie Hughes
Miss Amy Jones
Mrs Clare Jones
Mrs Ceri Owen-Jones
Miss Margaret Jones
Miss Emma Jones
Miss Glesni Jones
Mr Eilir Jones
Mrs Ffion Jones
Mr Terry Mitchelmore
Mrs Iona Parry
Mrs Helga Pritchard Griffith
Miss Donna Pritchard

Miss Sara Parry
Miss Sian Rees Roberts (0.6)
Mr Jonathan Sadler
Mrs Ann Saynor
Mr Gruff Sion
Mrs Meryl Slater Parry
Miss Cara Thomas
Miss Cim Thomas
Mrs Susan Taylor
Miss Lisa Taylor
Miss Sian Taylor
Miss Elin Williams
Miss Tanya Williams
Miss Sheila Wyn Williams
Miss Sioned Williams

Swyddog Cefnogi Ysgol

Mrs Alison Corfield
Mrs Gwenfair Jones

Nyrs Ysgol

Mrs. Eluned Williams

Gofalwr yr Ysgol

Mr Richard Jones

Glanhawyr

Mrs Carol Parry;(Glanhawraig mewn gofal); Mrs. Linda Williams; Sian Roberts; Nerys Jones.

Staff Y Gegin

Ms Karen Williams
Mrs Sandra Owen

RHESTR LLYWODRAETHWYR

Dr Helen Roberts (Cadeirydd)(Cyfetholedig)
Dr Catrin Elis Williams (Is- Gadeirydd Fforwm Plant + Theuluoedd Gwynedd)
Cynghorydd Richard Morris Jones (Cynrychiolydd AALI)
Cynghorydd Tudor Owen
Miss Bethan Morris-Jones (Pennaeth)
Mr Deiniol Harries (Cynrychiolydd Athrawon)
Mr Richard T Jones (Cynrychiolydd Staff Ategol)
Mrs Carol Davies-Owen (Cynrychiolydd Rhieni)
Mrs Sarah Hughes (Cynrychiolydd Rhieni)
Mrs Ellen Thirsk

Clerc i'r Llywodraethwyr

Meleri Humphries.

DISGRIFIAD O'R YSGOL

Ysgol arbennig ddyddiol ar gyfer plant gydag anghenion addysgol arbennig, rhai yn ddwys ac aml-nam. Mae ystod oedran y plant yn amredeg o 3 - 19 oed.

Oriau'r Ysgol

Sesiwn y bore - 8.45 - 12.10

Sesiwn y prynhawn - 13.10 - 15.00

DERBYN I'R YSGOL

Derbynnir plant i'r ysgol trwy system gyfeirio ac asesu yr Awdurdod Addysg Lleol yn ôl canllawiau Deddf Addysg 1981. Paratoir Cynllun Datblygu Unigol neu Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig gan yr Awdurdod Addysg sy'n cynnwys gwybodaeth addysgol, seicolegol ac iechyd ynghyd â sylwadau gan y rhieni ac unrhyw asiantaeth arall fo'n delio â'r plentyn.

Bydd y Pennaeth yn ymwneud â'r drefn hon trwy wahodd swyddog penodol o'r Gwasanaeth Ysgolion. Bydd y swyddog yn trefnu'r holl ddarpariaeth hyd nes bydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol.

Cyn derbyn y plentyn, bydd y rhieni yn cael gwahoddiad i ymweld â'r ysgol ac i drafod unrhyw fater perthnasol. Pan dderbynnir y plentyn gofynnir i'r rhieni gwblhau taflen wybodaeth ac i arwyddo ffurflen ganiatâd i'w plentyn gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol, boed ar y safle neu du allan.

Croesawir rieni i wneud trefniadau eu hunain i ymweld â'r ysgol pan yn ystyried lleoliad addas i'w plentyn. Ond yn y pen draw, rhaid dilyn y drefn statudol drwy swyddogion perthnasol y Sir.

AMCANION YR YSGOL

Mae "Amcanion yr Ysgol" yn gosod sail a chanllawiau i waith, delwedd a datblygiad yr ysgol. Rhain yw y prif amcanion -

1. Addysgu pob plentyn fel bo'n anelu at gyrraedd ei llawn botensial ymhob agwedd o'i ddatblygiad, sef yn addysgol, deallol, corfforol, emosiynol, diwylliannol a chymdeithasol.
2. Annog ac addysgu disgyblion sut i fwynhau a chyfrannu'n bwrpasol i fywyd tu fewn i'w cymdeithas.
3. Cynorthwyo'r trosiad o blentyndod i oedolaeth ac o fywyd ysgol i fywyd oedolion o fewn y gymuned, sy'n berthnasol i'r unigolyn yn nhermau aeddfedrwydd personol a chymdeithasol.

DULLIAU CYFLAWNI'R AMCANION

1. Trwy gynllun cwricwlaidd sy'n cynnig ystod eang a chytbwys o brofiadau ac sy'n berthnasol i anghenion penodol yr unigolyn.

2. Trwy sicrhau awyrgylch hapus a diogel sy'n annog a chynnal yr Unigolyn.
3. Trwy sicrhau, cydlynu a datblygu cydweithrediad gydag asiantaethau allanol sydd ag arbenigedd i'w gynnig i hybu datblygiad y plentyn.
4. Trwy annog y rhieni i gymryd rhan ymarferol yn hyn oll.
5. Trwy ddatblygu perthynas dda rhwng yr ysgol a'r gymuned leol a chreu cyswllt ymarferol ar sawl lefel gydag ysgolion prif-lif yr ardal.
6. Trwy Monitro ac Asesu parhaol gyda'r adnodd BSquared (ar lein).

ETHOS YR YSGOL

Y nôd yw i greu amgylchedd sy'n adlewyrchu'r ymgais tuag at safon uchel yn nhermau gwerthoedd, agweddau a phrofiadau addysgol. Anelir at gynnig addysg sy'n eang a chytbwys a hefyd yn rymus ei nawws. Yr uchelgais yw creu'r sefyllfa orau ble gall yr unigolyn ddatblygu hyd eithaf ei allu ymhob elfen o'i gyfansoddiad fel y gall gymryd ei le fel person cyflawn yn y gymdeithas.

Er mwyn cyflawni'r uchod, anelir at greu awyrgylch cartrefol ble gall yr unigolyn deimlo'n ddiogel, yn sicr o'i le yng nghymdeithas yr ysgol ac yn adnabod y ffiniau ble y gall weithredu tu fewn. Wrth dderbyn parch mae'r disgybl yn dysgu sut i ddangos parch ac yn magu hunan-hyder. Mae pob llwyddiant, waeth pa mor fychan, yn dwyn canmoliaeth a thrwy gymell diddordeb, dychymyg a chwilfrydedd yr unigolyn, mae hyn yn ei dro yn arwain at fwy o lwyddiant.

Anelir at gynnig profiadau addysgol sy'n berthnasol i anghenion ac aeddfedrwydd yr unigolyn. Defnyddir profiadau a diddordebau'r staff yn ogystal ag arbenigedd o'r tu allan i sicrhau profiadau eang a chytbwys, sydd hefyd yn creu her a sialens i'r disgybl.

CWRICWLWM YR YSGOL

Amcanion

Gwelir rhestr gyflawn o'r amcanion yn y ddogfen "Polisi Cwricwlwm yr Ysgol", ond dyma'r prif rai:

- Galluogi'r unigolyn i ddatblygu i'w lawn botensial trwy gynnig cwricwlwm a nodweddir gan ei ehangder, cydbwysedd, perthnasedd, gwahaniaethiad, dilyniant a pharhâd. Bydd hyn yn fodd i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau, ymagweddiad a chysyniadau.
- Caniatáu'r cyfle i bob disgybl ddilyn cwrs addysgol gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol, Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Digidol, ASDAN ac AQA sy'n cynnig amryw o brofiadau a meysydd dysgu.
- Sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer mynediad i holl agweddau'r cwricwlwm, heb ystyried natur a maint anabled, rhyw, hil, diwylliant na rhwystredigaeth yr unigolyn.

Y CWRICWLWM

Sicrheir profiadau addysgol eang trwy gyfuno Cwricwlwm Datblygiadol (sy'n berthnasol i'r unigolyn yn nhermau ei ddatblygiad personol, cymdeithasol a hunan gynhaliol) a'r meysydd addysgol oddi mewn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r Cyfnod Sylfaen. Cyflwynir hyn yn

bennaf drwy fframwaith themâu sy'n cylchredeg dros gyfnod o dair mlynedd. Cyflwynir y pynciau sylfaen trwy fframwaith themau a'r pynciau craidd yn bynciau ar wahan.

Ceir Amserlen Wythnosol sy'n adlewyrchu amser rheolaidd ar gyfer pynciau craidd a thasgau penodol a pherthnasol i'r unigolyn. Cynigir rhai profiadau ar ffurf modiwlaid, sef cylch o amser sy'n parhau am gyfnod penodedig, fel hanner tymor.

Materion cwricwlaidd a rheolaethol eraill

- Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu difrifol a lluosog yn dilyn rhaglenni addysgiadol yn seiliedig ar Map Llwybrau (ACCAC).
- Mae'r disgyblion yn dilyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Digidol er mwyn datblygu'r sgiliau sylfaenol ar draws y cwricwlwm.
- Mae disgyblion mewn dau dosbarth Cyfnod Sylfaen yn dilyn rhaglenni ABA (Applied Behaviour Analysis) er mwyn sicrhau datblygiad sgiliau sylfaenol yn fuan yn eu datblygiad addysgol. Mae gan yr ysgol arbenigwraidd ABA llawn amser er mwyn sicrhau cysondeb a ddatblygiad.
- Mae pob disgybl yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy dilyn Targedau Dyddiol sydd yn sicrhau cynydd o'r targedau yn eu Cynllun Addysg Unigol.
- Mae'r disgyblion yn datblygu sgiliau byw ac annibyniaeth drwy 'Active Support' a gwelir y cynnydd yn y sgiliau'n glir drwy'r system cofnodi a graffio.
- Mae'r disgyblion hŷn yn dilyn fframwaith gyrfaedd gan ddefnyddio fframwaith ASDAN, sef rhaglen 'Cynnydd Personol' a 'Transition Challenge'.
- Mae'r ysgol wedi derbyn marc safon Gyrfa Cymru ac mae'r disgyblion ôl16 yn mynychu sesiynau profiad gwaith yn wythnosol ac yn cydweithio hefo Gyrfa cymru, Antur Waunfawr, Menter Fachwen a Chynllun Cymunedol Arfon. Datblygir hefyd sgiliau menter drwy amrywiaeth o brosiectau o fewn y dosbarthiadau.
- Defnyddir digyblion rhaglenni Headsprout a Trugs er mwyn datblygu eu sgiliau darllen.
- Mae'r ysgol wedi derbyn y Marc Safon (3 gwaith) gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ac wedi ei chofrestru gan Gynllun Datblygu a Rhwydwaith Achredu ASDAN ac AQA.
- Mae cwricwlwm pob dosbarth yn cynnwys gweithio ar ddatblygu sgiliau hunan-ofal, cyfathrebu, sgiliau corfforol mawr a ffisiotherapi, celf a chreffft, datblygu synhwyrau, sgiliau cyfrifiadur, a sgiliau gweledol a chlywedol.
- Datblygir sgiliau a phersonoliaeth pob disgybl, fel eu bod yn datblygu cymaint ag y gallent o fewn eu gallu, bydd y disgyblion yn cael y cyfle i ddefnyddio a derbyn profiadau o holl adnoddau'r ysgol a'r gymuned tu allan.
- Gwneir defnydd llawn o bwll hydrotherapi yr ysgol. Mae'r ystafelloedd newid gerllaw hefyd yn cynnwys gwely newid arbennig sy'n codi a gostwng yn ôl yr angen ac mae yna Dipper Hoist ar ochr y pwll.
- Mae ystafelloedd ysgogi synhwyrau ble ydym yn cynnig profiadau amrywiol sy'n ehangu ac ysgogi sgiliau gweledol a'r synhwyrau eraill, yn ogystal â chyfathrebu. Mae 2 ystafell ysgogi synhwyrau yn yr ysgol (Ystafell Dywyll ac Ystafell Olau) un ystafell chwarae meddal ac un ystafell synhwyrol/emosiynol.
- Mae gan bob plentyn raglen waith unigol sydd wedi ei chynllunio'n arbennig ar eu cyfer. Mae asiantaethau allanol fel Therapyddion Iaith a Cherdd hefyd yn ymweld â'r ysgol i weld unigolion ac i roi mewnbwn i'r rhaglenni unigol.
- Ein nod yw datblygu'r unigolyn hyd eithaf eu gallu gan geisio rhoi ystod eang o brofiadau addysgol a chymdeithasol tu mewn a thu allan i'r ysgol.

- Mae'r dosbarthiadau cynradd yn cael gwersi merlota gyda'r RDA yn Nhreforth, derbynir pob dosbarth gyfnod o chwech wythnos er mwyn datblygu sgiliau motor mawr a chyfathrebu.
- Mae gan yr ysgol 3 bws mini ac 1 fan bach. Mae hyn yn ein galluogi i fynd â'r plant allan i'r gymuned ar deithiau addysgol sy'n ymwneud â gwaith y tymor. Yn wythnosol byddwn yn mynd â'r plant i'r dref er mwyn hybu hyder a sgiliau personol.
- Mae'r ymweliadau addysgol yn holl bwysig er mwyn sicrhau datblygiad llawn ein disgyblion lle byddant yn dysgu sgiliau megis dangos a phrofi ymwybyddiaeth o wahanol amgylchedd.
- Mae'r cyfle hefyd i'r disgyblion ymaelodi â'r Urdd ac i gystadlu yn yr adrannau Celf a Chrefft a Cherddoriaeth Greadigol.
- Mae'r cyfle hefyd i blant gystadlu mewn Chwaraeon Cystadleuol tu allan i'r ysgol e.e. "Splash and Swim"; Cystadleuthau pêl-droed, Gemau Hwyl; Gweithgareddau'r Urdd a Gemau Cymru.
- Ein nod yw meithrin plant a phobl ifanc hapus, hyderus ac ymholgar.
- Cynhelir Adolygiadau Person Ganolog er mwyn adolygu Datganiad y disgyblion yn flynyddol. Mae gan bod disgybl proffil personol ac yn cymryd rhan allweddol yn eu hadolygiad.
- Mae'r ysgol wedi cael cydnybyddiaeth gan 'Clywed' am ein gallu i 'Glywed' llais plant a phobl ifanc.

ATHRONIAETH A CHYNNWYS YR ADRANNAU

Mae 12 dosbarth yn yr ysgol gydag athro/awes ac o leiaf 3 cymhorthydd dosbarth ymhob dosbarth. Mewn rhai dosbarthiadau ble mae mwy o alw am lefel uwch o staffio, oherwydd niferoedd uwch o blant neu anghenion fwy dwys, ceir cymhorthydd/ion ychwanegol.

Rhennir y dosbarthiadau yn ôl oed, gallu ac anghenion, felly bydd ychydig o orgyffwrdd rhai o'r elfennau hyn ymhob dosbarth. Ond, yn gyffredinol dyma sut mae rhediad oed y dosbarthiadau:-

<i>Dosbarth</i>	<i>Disgrifiad</i>
CYNRADD	CYNRADD
Gelert	Oed cyn-ysgol hyd at CA1 (3-7 oed)
Arfon	Plant ag Anghenion Dwys a Lluosog (3-7 oed)
Peris	CA2 (7-11)
Llŷn	CA2 (7-11)
UWCHRADD	UWCHRADD
Segontium	CA3 (11-14)
Padarn	CA3 (11-14)
Cadnant	CA3 (11-14)
Dinorwig	CA4 (14-16)

<i>Dosbarth</i>	<i>Disgrifiad</i>
Wyddfa	CA3 & 4
Foryd	CA3 & 4
Seiont	16+
Menai	16+

CYNRADD

Dosbarthiadau Gelert/Arfon/Peris/Llyn

Wrth gychwyn eich taith o amgylch yr ysgol, byddwch yn cychwyn gyda'r disgyblion lleiaf (3 oed) ac yn cychwyn o Dosbarth Gelert, yna Arfon a Pheris. Mae'r 3 dosbarth yma yn defnyddio toiledau pwrpasol ar gyfer helpu magu sgiliau toiled y disgyblion. Mae Dosbarthiadau Gelert ac Arfon yn derbyn disgyblion oed 3-7. Mae gan y dosbarthiadau drysau sydd yn agor allan i man chwarae pwrpasol sydd yn cynnwys siglenni a chylchfan wedi eu haddasu.

Mae gan Ddosbarth Arfon 'hoist tô' ac felly bydd disgyblion sydd yn defnyddio cadeiriau olwyn yn mynychu'r dosbarth yma wrth gychwyn yr ysgol. Mae dosbarthiadau Gelert ac Arfon yn derbyn mewnbwn ABA ac amserlen sy'n canolbwyntio ar ofynion yr unigolyn ac yn dilyn cwricwlwm synhwyrol, sesiynau ffisiotherapi, sesiynau yn y pwll hydro ac yn dilyn targedau Cynlluniau Addysg Unigol.

Mae Dosbarth Peris a Llyn yn derbyn disgyblion oed 7-11. Mae gan y dosbarthiadau yma ardal chwarae o dan dô i rannu, gyda giât er mwyn cadw'r plant yn sâff tra'n dysgu trwy chwarae. Mae'r dosbarthiadau hefyd yn agor allan i'r ardal chwarae.

Dilynir y dosbarthiadau yma amserlenni llawn er mwyn derbyn mynediad i holl adnoddau'r ysgol megis y pwll hydrotherapi, yr ystafelloedd synhwyrol, lle chwarae meddal, ystafell dechnoleg bwyd, cerdd ac arlunio. Mae rhai o'r disgyblion yn ymweld â'r Ganolfan Hamdden yn wythnosol am wersi nofio neu i dderbyn sesiynau Therapi Adlam.

Mae'r deunyddiau Llwybrau Dysgu yn cael eu defnyddio gyda nifer o'r disgyblion, yn bennaf y rhai sydd â 'PMLD'. Mae hyn yn asesiad ar gyfer dysgu traws gwricwlaidd arbenigol sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu cynnar a sgiliau gwybyddol.

O fewn y dosbarthiadau ble mae'r Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno mae gan yr ystafelloedd dosbarth feysydd penodol o ddysgu oddi mewn iddynt. Mae'r gwaith a wnaed yn y dosbarthiadau cynradd yn cynnwys datblygu sgiliau hunan-ofal a sgiliau hunan-gymorth, gweithgareddau corfforol a gweledol a datblygu sgiliau synhwyraidd. Rydym yn anelu at ddatblygu'r plentyn cyfan; eu personoliaeth, sgiliau, galluedd a chyfathrebu. Mae cyfle i bob plentyn ddefnyddio a chael profiad o holl adnoddau'r ysgol ac i ddod yn rhan o'r gymuned leol.

Mae'r cyfle i bob dosbarth fynd i reidio ceffylau yn wythnosol am hanner tymor. Mae'r ysgol hefyd yn rhedeg 4 bws mini, mae hyn yn ein galluogi i'r disgyblion fynd allan i'r gymuned, ar ymweliadau addysgol yn ymwneud â gwaith prosiect, neu i brynu cynhwysion ar gyfer ryseitiai. Mae'r dosbarthiadau hefyd yn cymryd rhan yng nghystadlaethau celf a chrefft yr Urdd yn flynyddol.

Ein nod yw meithrin plant hapus, hyderus ac ymholgar.

UWCHRADD

Mae'r adran uwchradd yn cynnwys 6 dosbarth.

Mae rhai o'r disgyblion yn gweithio ar lefelau 1, 2 a 3 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, tu allan i'w cyfnod allweddol. Pwysleisir ar ddysgu iaith yn cynnwys llafaredd, darllen ac ysgrifennu a bydd gwaith rhif yn ymdrin â hanfodion fel arian ac amser. Datblygir sgiliau Medrau Meddwl ac Asesu ar gyfer dysgu ymhob dosbarth er mwyn sicrhau dealltwriaeth a datblygiad pob disgybl. Dysgir y sgiliau yma fel rhan o raglen waith unigol pob plentyn, ac o fewn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Bydd rhai o ddisgyblion yr uwchradd yn cael mynediad i'r pwll hydrotherapi a'r ystafelloedd synhwyrol. Bydd defnydd hefyd o'r ystafell chwarae feddal. Bydd pob disgybl yn cael defnydd o'r ystafelloedd arbenigol. Mae'r ystafelloedd coginio, celf a cherdd yn cael defnydd gan y dosbarthiadau uwchradd ac yn datblygu sgiliau yn y meysydd yma.

Tu allan i'r Ysgol mae poly tunnel a gerddi rhandir, a bydd grwpiau yn eu defnyddio ar gyfer plannu planhigion, llysiau a ffrwythau amrywiol, bydd peth o'r cynnyrch yma yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y wers coginio.

Mae'r disgyblion wedi datblygu gardd goffa a synhwyrol ac mae gwaith mawr yn mynd i mewn i'w cadw yn daclus ac i ddatblygu ymhellach. Bydd cyfle i'r disgyblion ehangu eu profiadau addysgol a chymdeithasol trwy ymweld â gwahanol fannau yn y gymuned leol.

Mae disgyblion yr uwchradd yn cael amrywiaeth o brofiadau yn y maes addysg gorfforol gan gynnwys sesiynau wythnosol yn y ganolfan hamdden, Therapi Adlam, reidio beic ar drac yr ysgol. Derbynir y disgyblion gwersi nofio yn y Ganolfan Hamdden, neu ym Mhlas Menai yn wythnosol. Byddant yn cael y cyfle i fynychu ymweliadau i ganolfannau amrywiol, ac yn cael profiad o ymweliadau preswyl o dan oruchwyliath staff yr ysgol, er enghraifft i ganolfan Glan Llyn.

Ein nod yw meithrin sgiliau fydd yn galluogi'r disgyblion i fod yn unigolion cyflawn o fewn y gymuned hyd eithaf eu gallu.

ADDYSG BELLACH/ÔL 16

Tra'n ymwybodol o bwysigrwydd sgiliau sylfaenol ac allweddol a'r angen i ennill cymwysterau ac achrediad cydnabyddedig allanol gofynnir un cwestiwn syml wrth ystyried yr hyn a ddysgir i ddisgyblion ôl16:

'Ydy'r hyn a ddysgir yn berthnasol at fywyd y disgybl yn ystod yr amser y mae o neu hi yn yr ysgol ac yn bwysicach, a ydy'r hyn a ddysgir yn mynd i fod yn berthnasol wedi iddynt adael yr ysgol?'

Dyma enghreifftiau o rai o brif amcanion dosbarthiadau Seiont a Menai:

- Paratoi'r disgybl i ymdopi'n effeithiol ac mor annibynnol â phosib gyda'i anghenion personol cartref ac yn yr ysgol.
- Datblygu sgiliau sydd yn ddefnyddiol mewn bywyd bob dydd.
- Darparu'r disgybl tuag at sefyllfa waith neu choleg ar ôl iddo / iddi adael yr ysgol.

Mae'r pwyslais bob dydd a thrwy'r dydd ar geisio ymdopi'n annibynnol gyda gwaith y dosbarth a bywyd yn gyffredinol.

Dyma enghreifftiau o'r math o waith a wneir yn y dosbarthiadau yma:

Sgiliau Tŷ

Coginio - bydd disgwyl i rai o'r disgyblion fedru gwneud diod poeth i'w hunain ac i grŵp o ffrindiau; gwneud byrbryd i'w hunain trwy ddefnyddio popty, microdon neu cyffredin. Bydd pawb yn cael y profiad o fagu'r sgiliau yma yn ôl eu gallu.

Bydd rhai o'r disgyblion yn gallu paratoi pryd i'w hunain ar ôl bod yn siopa am fwyd yn annibynnol. Disgwylir i bawb fedru cadw'r gegin yn lân.

Mae'n bwysig dysgu cadw dillad yn lân, a bydd disgyblion yn cael y profiad o hel dillad budur, llenwi'r peiriant golchi, sychu'r dillad a'u smwddio fel rhan o'u gwaith Sgiliau Bywyd. Bydd cyfle i blannu amrywiaeth o blanhigion, llysiau a ffrwythau yn y polytunnel, ac yng ngerddi'r ysgol.

Y gymuned lleol

Mae'n bwysig i bob unigolyn gymryd ei le / lle yn y gymdeithas felly bydd y disgyblion yn cael hyfforddiant ar siopa yn y gymuned leol. Golyga hyn dysgu nifer o sgiliau e.e. cerdded yn ddiogel i'r dref; dysgu croesi lonydd; adnabod siopa, chwilio am nwyddau; cael syniad ar werth y nwyddau; cerdded o gwmpas y dref a bod yn ymwybodol o eraill; mynd i gaffi ac archebu a thalu am rywbeth. Gwneir hyn o dan oruchwyliaeth fanwl .

Hamddena

Mae cwricwlwm y dosbarth yn cynnwys gweithgareddau hamdden. Pwysleisir pwysigrwydd cadw'n iach trwy nifer o wahanol ffyrdd e.e. nofio ym Mhlas Menai neu'r Ganolfan Hamdden, cerdded ar hyd llwybrau cyhoeddus, dringo a chanwïo, reidio beic, Therapi Adlam ayyb.

Mae'n bwysig i'r disgyblion wybod am wahanol weithgareddau hamdden sydd ar gael e.e. squash, badminton, gemau bwrdd a phwysigrwydd dysgu rheolau a chyd-chwarae. Ni ddylid anghofio sgiliau sylfaenol fel darllen, ysgrifennu a rhif a bod modd ymarfer y rhain yn eu hamser hamdden.

Ysgrifennu

Bydd pob unigolyn yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu yn ddyddiol yn ôl eu gallu. Byddant yn cael cyfleoedd o fewn gweithgareddau penodol a thrwy eu gwaith ASDAN, Gyrfaoedd a gwaith AQA.

Darllen

Bydd darllen, fel sgil, yn digwydd mewn ffyrdd ymarferol yn naturiol yn ddyddiol. Er bod cyfle i ddarllen ac edrych ar lyfrau bydd y disgyblion yn darllen geiriau / symbolau allweddol o gwmpas y tŷ / dosbarth; yn adnabod geiriau cymdeithasol o gwmpas y dref; darllen bwydlen mewn caffi; darllen cyfarwyddiadau ar y cyfrifiadur (Rhynggrwyd); defnyddio llyfr ffôn ayyb.

Gwaith Rhif

Wrth ymdrin â gwaith rhif bydd y disgyblion yn ymwneud â sgiliau trin arian, dweud yr amser a sgiliau mesur. Gwneir hyn mewn modd ymarferol e.e. dysgu sut i ddarllen amserlen bws; darllen swm mewn siop neu gaffi; estyn arian a thalu am nwyddau; dweud yr amser ar gyfer adegau pwysig yn ystod y dydd; defnyddio 'TV Guide' i weld pa bryd mae eu hoff raglenni teledu; cyfri cwpanau wrth wneud diodydd; dysgu mesur ar gyfer y gegin neu ar wrth wneud gwaith coed.

Cyfathrebu

Mae hybu cyfathrebu rhwng ei gilydd a gyda phobl yn y gymuned yn rhan bwysig o waith yr ysgol gyda'r disgyblion. Defnyddir yr ysgol nifer o wahanol ddulliau cyfathrebu; Makaton; PECS; PADD, Proloquo; Gwrthrychau Cyfeirio; Symbolau/lluniau; dulliau unigol. Rhoddir llawer o bwyslais ar drin a thrafod gwaith sydd wedi ei wneud a thrafod eu profiadau yn yr Ysgol ac allan yn y gymuned. Bydd disgyblion yn cael profiadau gwahanol yn ystod y flwyddyn. Mae cyfle iddynt ymweld â nifer o lefydd megis Canolfan Ailgylchu, bowlio deg, theatr, canŵio a dringo ayyb ynghyd ag ymweliadau wythnosol i Blas Menai, siopa yn y gymuned, mynd i'r caffi ac i'r llyfrgell yn achlysurol. Mae'r ymweliadau addysgol yma yn bwysig i ehangu gorwelion a chynnig profiadau newydd i'r disgyblion.

Cynllun Gwobrwo Ieuencid (ASDAN)

Mae'r ddau dosbarth yn gweithio ar raglen 'Personal Progress' ar lefelau gwahanol. Mae cyfle i'r disgyblion ennill credyd am fodiwlau o fewn y rhaglen er mwyn gweithio tuag at Wobr (8 credyd), Tystysgrif (14 credyd) neu Diploma (37 credyd). Mae'r gweithgareddau o fewn y rhaglen yn rhai ymarferol sydd yn datblygu sgiliau annibynnol, cyfathrebu a'r gyrfaoedd. Mae'r disgyblion yn nosbarth Seiont yn dilyn rhaglen 'Transition Challenge Synhwyrol'. Trwy'r cynllun yma bydd disgyblion yn cyflawni gweithgareddau sydd yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu, annibyniaeth a synhwyrol.

Cynllun AQA

Bydd pob disgybl ôl-16 yn cael y cyfle i weithio ar Sgiliau Bywyd sy'n arwain at dystysgrif AQA. Cydnabyddir Sgiliau AQA gwaith ymarferol a thasgau sgiliau byw. Torrir y sgiliau yn dargedau llai er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn llwyddo i ddatblygu sgiliau annibyniaeth a sgiliau byw.

Profiad Gwaith

Disgyblion 16 mlwydd oed sydd yn cael mynediad i brofiad gwaith ac mae angen caniatâd y rhieni i wneud hynny. Bydd disgyblion yn dewis lleoliad profiad gwaith yn dilyn ymweliadau i'r llefydd gwahanol. Mae'r cyfle i gael nifer o brofiadau gwahanol yn ystod eu hamser yn y dosbarth.

Bydd disgyblion yn mynychu diwrnod o brofiad gwaith yr wythnos. Fel arfer bydd disgybl yn mynychu'r un profiad gwaith am dymor, ac os yn mwynhau y profiad yn parhau am ail dymor. Erbyn y drydedd, bydd yr athro dosbarth yn cynnig lle gwahanol ac yn awgrymu rhywle newydd. Mae'r dull yma yn sicrhau erbyn gorffen yn yr ysgol yn 19 mlwydd oed, bydd y disgybl wedi derbyn o leiaf 4 neu fwy o brofiadau gwahanol, ac yn gallu penderfynu beth yw'r cam nesaf ar ôl ysgol.

Dyma enghreifftiau o'r profiadau sydd ar gael i'r disgyblion:

Antur Waunfawr:

Caffi, Siop, Warws Werdd (ailgylchu dodrefn), Safle Ailgylchu Caergylchu, Trin Gerddi, Gwaith Swyddfa a'r grwp aml-gofynion.

Menter Fachwen:

Caffi Cibyn, Gweithdy Coed, Polytunnel, Caffi EB's, Sgiliau Bywyd yn y Bwthyn, Siop Llanberis (gwaith yn y siop a ffotograffi) a'r safle Fachwen.

Yn y Gymuned:

Mae rhai unigolion wedi bod yn gweithio allan yn y gymuned megis Tesco, Ysgolion Cynradd Lleol, y Ganolfan Hamdden a Meithrinfa.

Mae cysylltiad agos gyda Gyrfa Cymru ynghyd â lleoli a chynnydd y disgyblion ac mae cydweithrediad a chydymdeimlad y rhieni yn holl bwysig yn y broses yma.

Yn yr Ysgol:

Mae'r cyfle hefyd i ddatblygu sgiliau gwaith ar safle'r ysgol drwy menter dosbarth neu drwy gweithgareddau yn y gerddi. Mae rhai o'r disgyblion wedi gweithio o fewn dosbarthiadau cynradd ar gyfer cael profiad o waith cymhorthydd, neu wedi bod yn helpu yn y derbynfa er mwyn profiad mewn swyddfa.

GWEITHGAREDDAU ALLANOL

Mae amserlen wythnosol y disgybl yn brysur dros ben, gyda chyfleoedd i fynychu gwersi penodol Addysg Gorfforol; sesiynau nofio; profiadau yn y gymuned lleol mewn siop, caffi, llyfrgell ayyb; canolfannau awyr agored i dderbyn gweithgareddau fel canwio, dringo, abseilio, cyfeiriannu, ayyb.

Bydd y gweithgareddau hyn yn rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol ac wedi eu llunio yn arbennig ar gyfer yr unigolyn. Gweithredir y polisi ysgol a Sirol yng nghyd-destun ymweliadau addysgol (defnydd o'r rhaglen EVOLVE)

ADDYSG RHYW AC IECHYD

Credir y dylai addysg rhyw, oddi fewn i fframwaith moesol, fod yn rhan ganolog o gwricwlwm yr unigolyn ac mae'r ffordd y cyflwynir hyn yn ystyried pwysigrwydd bywyd teuluol.

Mae Deddf Addysg 1988 yn mynnu y dylai'r cwricwlwm hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol plant yn yr ysgol ac yn y gymdeithas, a pharatoi'r disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau ym mywyd fel oedolion.

Mae Deddf Addysg 1993 yn datgan fod rhaid cynnwys addysg rhyw i ddisgyblion oed uwchradd er bod dewis i'w gael ar gyfer oed cynradd. Mae'r dewis hwnnw i fyny i Lywodraethwyr yr ysgol, ond gall y rhieni ddewis i eithrio eu plant o addysg rhyw nad yw yn gynhwysedig yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

TREFN GWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol a gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1980, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas a chwricwlwm yr ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol.

Darperir copi yn rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac yn effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth.

ADDYSG GREFYDDOL A CHYDADDOLI

Nid oes gan yr ysgol gysylltiad uniongyrchol a ffurfiol gydag unrhyw enwad crefyddol. Serch hynny, bydd gweinidogion o bob enwad yn cael gwahoddiad i siarad hefo'r disgyblion ac i gynnal gwasanaethau.

Hon yw y drefn wythnosol arferol:-

Dydd Llun Gwasanaeth Cynradd yn y neuadd.

Dydd Mawrth Gwasanaeth Uwchradd yn y neuadd

Dydd Gwener Gwasanaeth Gwobrwyo: Gwasanaeth

ddathlu llwyddianau unigiolion yn ystod yr wythnos gyda 'Gair o Ganmol' neu 'Seren Aur'.

Ym Mhendalar mae'r gwasanaethau boreol yn fodd i hybu datblygiad cymdeithasol a chyfathrebol yr unigolyn. Ceisiwn greu awyrgylch glos a 'theuluol' ei naws er mwyn i'r plant deimlo'n hapus a rhydd, sydd mor bwysig ar gyfer datblygu eu hunan-hyder.

Gellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.

GWASANAETH NYRS YR YSGOL

Mae gan yr ysgol nyrs. Fe'i chyflogir gan y Tîm Datblygu Plant sy'n rhan o wasanaeth Ymddiriedolaeth Iechyd Gogledd Cymru.

Mae'n rhannu ei hamser rhwng y dosbarthiadau i gyd gan roi cymorth gyda gwahanol agweddau o ddatblygiad y plant. Y nyrs sy'n gofalu am rannu a chadw yr holl foddion sy'n cael eu rhoi i'r plant. Mewn rhai achlysuron e.e. 'Clefyd y Siwgwr' ar blentyn, bydd staff y dosbarth yn gyfrifol am brofi'r gwaed ac inswlin.

Os bydd angen moddion/ffisig newydd ar blentyn, gofynnir i'r rhieni gysylltu â'r nyrs i drafod yn fanwl sut y dylid rhoi'r moddion/ffisig ac er mwyn i'r nyrs wybod pryd i ddisgwyl cyflenwad newydd i'r ysgol. Gellir sicrhau wedyn bod unrhyw foddion yn cael eu cadw mewn man priodol a diogel.

Pan fydd y plant yn mynd adref o'r ysgol yn y prynhawn ac yn ystod y gwyliau, mae'r nyrs yn rhydd i ymweld â'r cartrefi i drafod anghenion y plant ac i gynnig cymorth ac arweiniad i'r rhieni.

GWAITH CARTREF

Gan amlaf, nid yw'r plant yn cael gwaith cartref ffurfiol. Fodd bynnag, gan fod y plant oed cynradd ac uwchradd yn gweithio ar ddull thematig, bydd yr athrawon yn ceisio ysgogi brwdfrydedd y plant mewn meysydd penodol fel bod eu diddordeb yn cario drosodd i'w horiau hamdden. Weithiau, fe ofynnir i rai o'r plant chwilio am wybodaeth neu ddeunydd priodol i'r gwaith, ar ôl oriau'r ysgol. Wrth gwrs, mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar y rhieni ac felly gofynnwn am eu cydweithrediad hwy, ble mae hynny'n bosibl.

Hefyd, mae rhan o gwricwlwm yr ysgol yn ymwneud â datblygu sgiliau hunan ofal a sgiliau byw yn annibynnol, felly disgwylir i'r plant barhau i ymarfer y sgiliau yma gartref. Dibynnwn ar gydweithrediad y rhieni yn hyn o beth.

Ar gyfer rhai plant fe drefnir gwaith cartref mwy ffurfiol. Bydd hyn gan amlaf yn ymwneud â datblygiad iaith megis darllen, deall ac ysgrifennu, neu fathemateg. Pan fydd hyn yn digwydd byddwn yn ceisio cael cytundeb gyda'r rhieni i gefnogi'r gwaith.

IAITH YR YSGOL

Ysgol ddwyieithog ydy Pendalar. Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr gan fod disgyblion a chefnidir ieithyddol y naill a'r llall yn bresennol. Addysgir y disgyblion yn eu mhamiaith lle bo hynny yn ymarferol.

Y Gymraeg yw prif iaith cyfathrebu'r ysgol ac anelir at gael pob disgybl i gyrraedd ryw lefel o ddwyieithrwydd, lle bo hynny'n bosibl. Mae'r drefn hon yn cydfynd â pholisi iaith yr Awdurdod Addysg Lleol.

ABSENOLDEBAU

- Dylai pob absenoldeb gael nodyn o eglurhad naill ai yn y dyddiadur dosbarth neu ar lafar yn uniongyrchol gan rieni i ysgrifenyddes yr ysgol neu trwy e-bost. Ni ddylid anfon negeseuon llafar drwy'r gwasanaethwyr cludiant (gosgordd tacs).

- Dylai rhieni sy'n bwriadu mynd ar wyliau teuluol yn ystod y tymor wneud cais ysgrifenedig i'r Pennaeth.
- Dylid trefnu apwyntiadau ysbyty, clinig neu ddeintydd tu allan i oriau'r ysgol, os yn bosibl. Pan nad yw'n bosibl, dylid gadael i'r ysgol wybod ymlaen llaw trwy'r nodyn arferol.

ARIAN CINIO

Hysbysir y rhieni am brisiau dyddiol cinio. Disgwylir i bawb dalu hwn oni bai fod ganddynt hawl i gael cinio am ddim neu eu bod yn dod â brechdanau/bwyd eu hunain.

Mae gan y rhieni sy'n derbyn Cynhaliaeth Incwm hawl i gael cinio am ddim i'w plant. Dylent wneud cais am ginio di-dal ar y ffurflen gywir (PY1). Mae hon ar gael naill ai o Swyddfa'r Sir neu drwy'r ysgol. Mae'n bwysig ei chwblhau yn rheolaidd ac mewn pryd i osgoi gorfod talu. Disgwylir i'r rhai sy'n talu am ginio wneud hynny ar Ddydd Llun pob wythnos er mwyn hwyluso'r drefn.

CODI TALIADAU

O bryd i'w gilydd byddwn yn trefnu gweithgareddau tu allan i'r ysgol sy'n cynnwys tripiâu addysgol, profiad preswyl, mynychu canolfannau'r Urdd, canolfannau awyr agored (Glanllyn, Plas Menai).

Nid oes gan yr ysgol hawl i godi tâl am y gweithgareddau hyn, ond mae gennym hawl i ofyn am gyfraniad gan y rhieni. Os nad yw y rhiant yn gallu cyfrannu, ni fydd hyn ynddo ei hun yn eithrio eu plentyn o'r weithgaredd. Fodd bynnag, 'rydym weithiau yn ddibynnol ar y cyfraniadau er mwyn gallu fforddio'r gwasanaeth/weithgaredd. Wedi dweud hyn, 'rydym yn gwneud ein gorau i geisio codi arian unrhyw ffordd arall er mwyn lleihau'r pwysau ar y rhieni.

GWASANAETHAU ERAILL

Merlota

Mae grwpiau cynradd yn mynd i ferlota hefo'r R.D.A. yn Nhreborth. Oherwydd maint a nifer y ceffylau sydd ar gael, dim ond disgyblion oed Cynradd sy'n derbyn sesiynau merlota. Mae'r R.D.A. (Riding for the Disabled) yn garedig iawn yn cynnig y gwasanaeth hwn am ddim. O bryd i'w gilydd byddwn yn codi arian ar eu cyfer, er mwyn hwyluso'r achos arbennig yma.

Prifysgol Cymru, Bangor

Yn hanesyddol mae gan yr ysgol gyswllt gyda'r Brifysgol. Mae rhai disgyblion yn derbyn diwrnod o weithgareddau Awyr Agored gyda myfyrwyr sy'n cynnig canwio ar Lyn Lanberis a dringo, yn y Ganolfan Ddringo Beacon.

Ers 2016 mae'r cyswllt yma wedi cynyddu. Mae'r disgyblion wedi elwa o sesiynau garddio gyda'r Cwmni Wild Elements, sydd hefyd wedi rhedeg cyrsiau ar gyfer y staff. Mae Prosiect Ffotograffi wedi rhoi'r cyfle i ddisgyblion Ysgol Pendalar a Syr Hugh Owen gydweithio, gydag arddangosfa o'r gwaith yn ystod tymor yr haf 2017. Mae rhai disgyblion wedi elwa sesiynau 'Codio' yn y maes Digidol, ac mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant yn y maes yma hefyd, trwy'r Brifysgol.

Edrychir yr ysgol ymlaen i fwy o gydweithio yn y flwyddyn 2017-2018.

DATBLYGIADAU YCHWANEGOL ERS MEDI 2016

Byddwn yn datblygu arbenigedd mewn llawer maes e.e. ABA (wedi cychwyn); ELKLAN; Cwrs MAPA i enwi rhai er mwyn sicrhau Ysgol Pendalar fel Canolfan Arbenigaeth mewn llawer maes.

Prif Flaenoriaethau yr Ysgol 2016-2017

1. Codi Safonau Cyfathrebu
2. Codi Safonau grwpiau penodol o Ddysgwyr
3. Codi Safonau Rhifedd
4. TGCh Dinasyddiaeth yn y Fframwaith Cymhwysedd Digidol
5. Datblygiad fel Sefydliad Cyfathrebu Gyfeillgar
6. Datblygu'n Sefydliad sy'n Canolbwyntio ar Unigolion

Prif Flaenoriaethau 2015-2016

1. Codi Safonau TGCh ar draws yr ysgol
2. Darparu Cwricwlwm addas ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasedd
3. Datblygu y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a modereiddio gwaith
4. Aelodau o'r Corff Llywodraethol yn meithrin gwell dealltwriaeth o gryfderau a materion gwella

Gwyliau ysgol 2017-18

2017-2018

TYMOR:

Hydref 2017	1 Medi 2017 - 22 Rhagfyr 2017
Gwanwyn 2018	8 Ionawr 2018 - 23 Mawrth 2018
Hâf 2018	9 Ebrill 2018 - 20 Gorffennaf 2018

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Llun, 4 Medi, 2017.

GWYLIAU:

30 Hydref – 3 Tachwedd 2017 (Hanner-Tymor)

25 Rhagfyr 2017 - 5 Ionawr 2018 (Gwyliau'r Nadolig)

12 - 16 Chwefror 2018 (Hanner-Tymor)

26 Mawrth - 6 Ebrill 2018 (Gwyliau'r Pasg)

7 Mai 2018 (Calan Mai)

28 Mai – 1 Mehefin 2018 (Hanner-Tymor)

23 Gorffennaf - 31 Awst 2018 (Gwyliau'r Hâf)

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Llun, 3 Medi, 2018 i athrawon, a dydd Mawrth, 4 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

MEDI 2017 21

HYDREF 2017 20

TACHWEDD 2017 19

RHAGFYR 2017 16

IONAWR 2018 18

CHWEFROR 2018 15

MAWRTH 2018 17

EBRILL 2018 16

MAI 2018 18

MEHEFIN 2018 20

GORFFENNAF 2018 15

195

1 Medi 2017 - Diwrnod dan Reolaeth Ysgol

4 Diwrnod Hyfforddiant

Mynd ar wyliau yn ystod tymor ysgol

Mae mynd â phlant ar wyliau yn ystod tymor ysgol yn gallu arwain at amryw o broblemau megis:

- addysg eich plentyn yn dioddef
- colli gwersi a gweithgareddau allgyrsiol
- colli cysondeb gwaith